Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych

# Rhestr o'r Prosiectau a Ariannwyd

Paratowyd gan Dawn Johnson,
Swyddog Prosiect, Cadwyn Clwyd
24/09/2024

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# Cynnwys


| Mudiadau | Sleid |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Bryntysilio | 4 |
| 3. Grŵp Llandrillo Menai | 5 |
| 4. Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf | 6 |
| 5. RCS Cymru | 7 |
| 6. ReSource Sir Ddinbych CBC | 8 |
| 7. Cadetiaid Môr Y Rhyl | 9 |
| 8. Cerrig Camu Gogledd Cymru | 10 |
| 9. Canolfan Sgiliau Coetir | 11 |


Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

# 1. Cyflwyniad

Mae ffurflenni Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych yn ategu nod Sir Ddinbych i gefnogi darparu cymorth cyflogadwyedd o safon sy'n fodd i bobl o bob oedran gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn bersonol ac yn broffesiynol. Mae'r mudiadau sydd wedi'u rhestru yma wedi llwyddo i ennill cyllid gan Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych. Mae'r tabl isod yn dangos eu Prosiect a'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu.

| Mudiad a Ariennir | Enw'r Prosiect | Cyllid a Ddyrannwyd |
|---|---|---|
| Bryntysilio | Sir Ddinbych Hyderus | £186,792.00 |
| Grwp Llandillo Menai | Camau Cefnogol | £68,200.00 |
| Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf | Academi Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru (Sir Ddinbych) | £23,550.00 |
| RCS Cymru | Gweithio'n Iach Sir Ddinbych | £18,863.62 |
| ReSource Sir Ddinbych CBC | Dyheu | £40,597.60 |
| Cadetiaid Môr Y Rhyl | Cadetiaid Môr Y Rhyl | £2,500.00 |
| Cerrig Camu Gogledd Cymru | Camau Nesaf | £14,000.00 |
| Canolfan Sgiliau Coetir | Adnewyddu Gwyrdd | £23,468.00 |

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 2. Bryntysilio

| Mudiad | Bryntysilio |
|---|---|
| Enw'r Prosiect | **Sir Ddinbych Hyderus** **£186,792.00** |
| Cyswllt | Chris Eastabrook chris.eastabrook@bryntysilio.co.uk 07843098980<br>Paula McKenna paula.mckenna@bryntysilio.co.uk info@bryntysilio.co.uk |

Canolfan Addysg Awyr Agored
BRYNTYSILIO
Outdoor Education Centre








Rydym yn bwrw iddi i ddefnyddio gweithgareddau awyr agored ac anturus fel ysgogwr twf, gyda'r nod o hybu eich ymdeimlad o'ch hunan a'ch hyder i'ch helpu i lywio llwybr drwy ddatblygu sgiliau, addysg, cymwysterau a gwaith sy'n gweddu ichi.

Byddwn yn byw yn breswyl, gan dderbyn bob pryd bwyd, ym Mryntysilio yn Llangollen am bythefnos. Byddwn yn cyflawni gwahanol weithgareddau, yn datblygu ein cymwyseddau, ac yn ymgymryd ag alldaith addas a hollgynhwysol a fydd yn hwb i'ch hyder.

Yna, byddwn yn cydweithio gyda chi, un diwrnod yr wythnos, am y 3 mis nesaf i hybu eich hyder a datblygu eich sgiliau er mwyn ichi ganolbwyntio ar rôl benodol hoffech chi ei chyflawni. Gallai fod yn rôl garddio, arlwyo, amgylcheddol, cyfarwyddyd awyr agored, addysg, adeiladu / cynnal a chadw a mwy. Mae'n gyfle i ddatblygu sgiliau, hybu hyder ac ennill cymwysterau gan fwynhau pob eiliad yn ogystal.

Byddwn yn diwallu'ch holl anghenion, mae cludiant ar gael, mae gofal plant ar gael ac mae gwahanol garfannau preswyl ar gael yn seiliedig ar oedran/rhyw.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 3. Grŵp Llandrillo Menai

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mudiad** | **Grŵp Llandrillo Menai** | | |
| **Enw'r Prosiect** | **Camau Cefnogol** | | **£68,200.00** |
| Cyswllt | Zoe Fox | fox1z@gllm.ac.uk | 07548837066 |
| | Bydd Camau Cefnogol yn cynnig pecyn cymorth mentora wedi'i deilwra i unigolion 16-18 oed sy'n cymryd rhan ac sy'n mynd rhagddi i gyflawni Addysg Bellach o'r ysgol, Unedau Cyfeirio Disgyblion neu leoliad addysg yn y cartref. Bydd y Prosiect yn cefnogi eu taith ddysgu ac yn cynnig gwasanaeth blaenllaw o'r adeg y byddan nhw'n cwblhau Blwyddyn 11 hyd at ymuno ag ac ymgartrefu ym mywyd coleg.<br><br>Caiff y rheiny sy'n cymryd rhan eu cefnogi i addasu a symud i fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Llandrillo y Rhyl. Byddwn yn cynnig gwasanaeth cymorth mentora llesiant cofleidiol sydd â'r nod o gynnig modd i fyfyrwyr newydd barhau i ddysgu hyd at ddiwedd y prosiect a thu hwnt.<br><br>Byddwn yn cynnig y prosiect mewn 2 ran. Yn ystod y rhan gyntaf byddwn yn targedu ymgeiswyr o ysgolion ac yn eu paratoi ar gyfer y coleg drwy ymyriadau 1-i-1 a grŵp. Yn ystod yr ail ran, byddwn yn cydweithio gyda nhw o fis Medi i sicrhau eu bod yn parhau ar eu cwrs a'u bod yn derbyn y gefnogaeth ddigonol. | | |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

# 4. Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mudiad** | **Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf** | | |
| **Enw'r Prosiect** | **Academi Twristiaeth a Lletygrwch Gogledd Cymru (Sir Ddinbych)** | | **£23,550.00** |
| Cyswllt | Jim Jones, Prif Weithredwr Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf | Jim.jones@gonorthwales.org.uk | 07525934742 |








Mae ein cyrsiau hyfforddiant hollgynhwysol yn cynnig profiad dysgu cytbwys i'n cleientiaid. Mae ein cwrs Twristiaeth a Lletygarwch 4 diwrnod o hyd wedi'i lunio'n ofalus i arfogi'r rhai sy'n cymryd rhan gyda'r wybodaeth hanfodol a'r sgiliau angenrheidiol i ragori yn y diwydiant Twristiaeth a Lletygarwch.

Trwy integreiddio cyfarwyddyd damcaniaethol, gweithgareddau ystafell ddosbarth atyniadol ac ymarferion ymarferol, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn derbyn addysg gyflawn sy'n ymdrin â holl agweddau'r diwydiant. Un rhan annatod o'n rhaglen ydy cynnig ymweliadau safle i sefydliadau twristiaeth a lletygarwch yn Sir Ddinbych.

Mae'r ymweliadau hyn yn cynnig cyfle gwerth chweil i'r rhai sy'n cymryd rhan i fwrw golwg ar weithwyr proffesiynol y diwydiant ar waith, goruchwylio'r arfer gorau ac ymdrochi yn yr amgylchedd gwaith gwirioneddol.

Unwaith y bydd y rhai sy'n cymryd rhan ar y cwrs wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, byddan nhw'n derbyn tystysgrif yn cydnabod eu hymrwymiad tuag at dwf proffesiynol yn y sector twristiaeth a lletygarwch. At hyn, bydd cyfle i gleientiaid gael eu hychwanegu at gronfa ddata ein hacademi, sy'n adnodd gwerth chweil i atgyfeirio cleientiaid at gyfleoedd gwaith yn ein sector.

# 5. RCS Cymru

<table>
<tr><td>Mudiad</td><td>RCS Cymru</td></tr>
<tr><td>Enw’r Prosiect</td><td>Gweithio’n Iach Sir Ddinbych £18,863.62</td></tr>
<tr><td>Cyswllt</td><td>Kerry Jones, Pennaeth Gweithrediadau workwell@rcs-wales.co.uk 01745 336442</td></tr>
<tr><td>
</td><td>Mae RCS yn ddarparwr cymorth llesiant a chyflogadwyedd cyfannol blaenllaw yng Nghymru, sydd â’r nod o helpu pobl i ddod o hyd i waith, parhau i weithio a ffynnu yn eu gwaith.<br><br>Mae’n bleser mawr gennym ni i gynnig cwnsela a Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT) i gynorthwyo pobl i oresgyn rhwystrau iechyd meddwl rhag dod o hyd i waith, megis iselder, gorbryder neu straen. Does dim angen diagnosis ffurfiol arnoch i fanteisio ar gymorth.<br><br>Gallai cymorth seicolegol helpu unigolion i ddatblygu hunan-gred a strategaethau ymdopi ynghyd â meithrin gwytnwch, fyddai’n sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu gyda chymorth cyflogaeth yn fwy effeithiol.<br><br>Bydd y rhai sy’n cymryd rhan yn derbyn rhwng chwech a naw sesiwn o gymorth cyfrinachol, naill ai ar-lein / dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol hygyrch ledled y Sir. Gallan nhw gael eu cyfeirio gan fudiadau eraill neu gyfeirio’u hunain. Byddwn yn cydweithio’n rhagweithiol gyda rhaglen BAROD Sir Ddinbych yn Gweithio, gan sicrhau bod ein cymorth cwnsela arbenigol yn ategu cymorth, mentora a hyfforddiant cyflogadwyedd BAROD.</td></tr>
</table>

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 6. ReSource Sir Ddinbych CBC

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mudiad** | **ReSource Sir Ddinbych CBC** | | |
| **Enw'r Prosiect** | **Dyheu** | | **£40,597.60** |
| Cyswllt | Janine Cusworth | janine@resourcewales.com | 07941914323 |






Mae ReSource yn Gwmni Buddiant Cymunedol (CBC) cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n ymroi i godi dyheadau ar gyfer unigolion sy'n economaidd anweithgar wrth hyrwyddo camau amgylcheddol cadarnhaol. Fel rhan o Brosiect Dyheu/Aspire, bydd ReSource yn cynnig cyfleodd lleoliad gwaith ychwanegol 10 munud ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sydd ag anableddau dysgu sydd ddim yn gweithio / gwirfoddoli ar hyn o bryd ac sydd ddim yn meddu ar gymhwyster Lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth. Caiff cyfleoedd lleoliadau gwaith eu cynnal ym mhrosiectau cymunedol ReSource ledled Rhuthun a Dinbych. Gan weithio o safbwynt lle mae'r person yn ganolog a derbyn cymorth Gweithiwr Allweddol unigol, caiff y rhai sy'n cymryd rhan eu cefnogi i ennill sgiliau, ymwneud â'u diddordebau, hybu eu hyder ac ennill cymwysterau sy'n seiliedig ar waith.

Bydd Prosiect Dyheu ar waith tan fis Tachwedd 2024 ac maen nhw'n awyddus i dderbyn atgyfeiriadau i'r prosiect gan fudiadau sector cyhoeddus a sector gwirfoddol eraill, darparwyr gofal, unigolion a'u gofalwyr.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 7. Cadetiaid Môr Y Rhyl

| Mudiad | Cadetiaid Môr Y Rhyl | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Prosiect | Cadetiaid Môr Y Rhyl | | £2,500.00 |
| Cyswllt | Rhian Beacher | tsrhyleventsandfundraising@gmail.com | 07753609147 |
| | Gyda'r grant hwn, byddwn yn mynd rhagddi i hyfforddi ein gwirfoddolwyr, sy'n fodd iddyn nhw ddatblygu eu harbenigedd a'r gwasanaethau gallan nhw eu cynnig. Drwy arfogi ein gwirfoddolwyr gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol, gallwn sicrhau eu bod nhw'n barod i gynnig hyfforddiant o safon mewn sawl maes, o gymorth cyntaf i chwaraeon dŵr.<br><br>Bydd yr hyfforddiant hollgynhwysol hwn yn hybu datblygiad personol ein gwirfoddolwyr yn ogystal â rhoi hwb i safon gyffredinol y rhaglenni rydym yn eu darparu. Wrth i'n gwirfoddolwyr ddod yn fwyfwy medrus yn y meysydd hollbwysig hyn, bydd modd iddyn nhw gynnig hyfforddiant blaenllaw i'n cadetiaid, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth a diogelwch.<br><br>Bydd y buddsoddiad hwn yn creu crych-effaith, sy'n gyfle inni ymestyn ein rhaglenni hyfforddiant i'r gymuned leol a'r busnesau yn y fro. Yn sgil galluoedd gwell ein gwirfoddolwyr, bydd yn fodd o greu amgylchedd dynamig a hollgynhwysol yn Marine Lake, gan hybu ymgysylltu cymunedol a dysgu gydol oes. Mae eu hyfforddiant yn gam annatod yn ein cynllun i ailwampio'r tŷ cychod yn Marina Lake i greu canolfan gymunedol llawn prysurdeb. Yn y pen draw, bydd llu o wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol yn hollbwysig er mwyn sefydlu'r tŷ cychod fel canolfan gweithgarwch a chonglfaen o gymorth ar gyfer ein cadetiaid a'r gymuned ehangach eill dau. | | |

SEA CADETS

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 8. Cerrig Camu Gogledd Cymru

| **Mudiad** | **Cerrig Camu Gogledd Cymru** | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Prosiect** | **Camau Nesaf** | | **£14,000.00** |
| Cyswllt | Shirley McCann | shirley@steppingstonesnorthwales.co.uk | 07508448130 |

Gogledd Cymru Cerrig Camu Stepping Stones North Wales




Mae Cerrig Camu Gogledd Cymru'n elusen, sydd ar waith ers 40 mlynedd bellach, sy'n cynnig cymorth ledled chwe sir Gogledd Cymru, i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod. Gallwch fanteisio ar ein gwasanaethau'n rhad ac am ddim, a gallai unrhyw un gyfeirio drwy ffonio ein rhif ffôn llinell gymorth neu fwrw golwg ar ein gwefan.

Nod ein prosiect ydy cysylltu gydag ein cleientiaid yn Sir Ddinbych er mwyn cynnig cwnsela proffesiynol 1-i-1, therapi celf, modd i fanteisio ar ddosbarthiadau addysg gan gynnwys sgiliau bywyd a dulliau gwahanol o ddysgu. Byddwn yn cydweithio gydag aelodau o'r teulu hefyd a bydd pawb sy'n rhan o'r prosiect yn derbyn cymorth a chefnogaeth gan staff a mentoriaid cymwys.

Ein gobaith ydy sicrhau bod y rheiny sy'n rhan o'r prosiect wedi hybu eu hiechyd meddwl a'u lles, eu bod wedi dysgu sgiliau newydd, wedi ennill cymwysterau ac wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu gyda chymorth, sy'n fodd i'r holl unigolion ailgydio yn eu bywydau, gyda'r gallu i wneud dewisiadau bywyd mwy gwybodus, manteisio ar gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli a meithrin teuluoedd cryfach.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

# 9. Canolfan Sgiliau Coetir

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mudiad** | **Canolfan Sgiliau Coetir** | | | |
| **Enw'r Prosiect** | **Adnewyddu Gwyrdd** | | **£23,468.00** | |
| Cyswllt | Iain Russell | iain@warrenwoods.org.uk | 07968 060483 | |
|    | Mae Warren Woods Cyf (Canolfan Sgiliau Coetir) yn Fenter Gymdeithasol nid-er-elw o dan ofal y gymuned sy'n gweithredu o safle 50 erw yng nghanol Bryniau Clwyd AHNE gyda golygfeydd godidog ledled Dyffryn Chwiler. Nod y safle hwn yw sicrhau buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol, addysgol a chymunedol. Mae gennym ni lecyn gwyrdd gwerth chweil gyda choetiroedd, gweithdy sylweddol ac ardaloedd ystafelloedd cyfarfod. Mae'n amgylchedd perffaith ar gyfer rhaglenni iechyd a lles sy'n hybu hyder a hunan-barch o ran ei natur. Maen le gwych i ddysgu sgiliau newydd.<br><br>Byddwn yn cynnal 2 garfan 10 wythnos o hyd (16 - 25y, 25y+) i gyflawni'r Cymhwyster Agored Lefel 1 mewn Dysgu yn yr Awyr Agored gyda chynnyrch Prysgwydd. Bydd yn ymdrin â Diogelwch yn yr Awyr Agored, Defnydd Cynaliadwy o adnoddau Naturiol a Chynnyrch Prysgwydd, 2 gymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a 4 diwrnod o weithgareddau Gwirfoddoli a chyfoethogi. Caiff ein holl sesiynau eu cynnal yn y coetir a'r gweithdai. Y diben ydy y bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn cwblhau cadair, neu stôl, wedi'i greu o goeden y maen nhw wedi'i brysgoedio o'r goedwig. | | | |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire